CYFRES YR HAF 2017

Ffocws ar Saesneg

Yr haf hwn bydd cymwysterau TGAU Saesneg Iaith a TGAU Llenyddiaeth Saesneg newydd yn cael eu dyfarnu am y tro cyntaf. Hwn hefyd yw'r cyfle olaf i ailsefyll yr hen gymhwyster TGAU Saesneg Iaith.

Beth sy'n newydd?

Mae'r cymhwyster TGAU Saesneg Iaith wedi newid yn sylweddol o'r hen gymhwyster, o ran cynnwys a strwythur. Mae newidiadau cynnwys yn golygu mwy o ffocws ar lythrennedd gweithredol.

Y prif newid strwythurol yw bod yr asesiad a reolir (a elwir weithiau yn waith cwrs) a oedd yn cyfrannu 20% tuag at y radd derfynol yn flaenorol wedi cael ei ddileu. Mae 80% o'r cymhwyster bellach wedi'i seilio ar ddau bapur arholiad sy'n canolbwyntio ar ddarllen ac ysgrifennu.

Mae un o'r arholiadau'n cynnwys tasg golygu sy'n canolbwyntio ar allu'r ymgeiswyr o ran ysgrifennu'n gywir. Mae ystod y testunau yn yr arholiadau wedi newid i gynnwys cymysgedd o hyd ac arddull ysgrifennu gwahanol. Mae'r asesiad siarad a gwrando yn dal i fod yn rhan o'r cymhwyster ac mae'n cyfrannu 20% tuag at y radd derfynol.

Un gwahaniaeth amlwg yn y cymhwyster TGAU Saesneg Iaith newydd yw nad yw'r asesiadau yn haenog mwyach. Yn flaenorol, sefodd ymgeiswyr bapur haen sylfaen neu haen uwch, ond yn y cymhwyster newydd, bydd pob ymgeisydd yn sefyll yr un papur arholiad, ni waeth pa radd maent yn anelu amdani.

Mae'r cymhwyster newydd yn llinol; mae hyn yn golygu y bydd angen sefyll pob arholiad ar ddiwedd y cwrs. Roedd yr hen gymhwyster yn unedol ac felly gallai dysgwyr sefyll unedau ac ailsefyll unedau yn ystod y cwrs.

Mae'r cymhwyster TGAU Llenyddiaeth Saesneg newydd yn debyg i'r hen gymhwyster. Mae'n dal i fod yn gymhwyster unedol sy'n golygu y gall dysgwyr sefyll unedau ac ailsefyll unedau yn ystod y cwrs.

CYFRES YR HAF 2017

Pwy sy'n astudio'r cymwysterau hyn yr haf hwn?

Mae'r data cofrestriadau ar gyfer y ddau gymhwyster yn dangos newid amlwg yn y patrwm cofrestru.

Ar gyfer TGAU Saesneg Iaith, mae'r data cofrestriadau yn dangos y bydd nifer fawr iawn o fyfyrwyr sydd dal ym mlwyddyn 10 yn sefyll y cymhwyster yr haf hwn. Mae ychydig dros 21,000 o gofrestriadau blwyddyn 10, sy'n cynrychioli tua 65% o'r holl fyfyrwyr blwyddyn 10 yng Nghymru.

Bydd tua 31,000 o fyfyrwyr ym mlwyddyn 11 hefyd yn sefyll eu harholiadau TGAU Saesneg Iaith yr haf hwn. Mae tua 4,000 o fyfyrwyr ôl-16 sy'n ailsefyll yr hen gymhwyster TGAU Saesneg Iaith; hwn yw eu cyfle olaf i ailsefyll.

Ar gyfer TGAU Llenyddiaeth Saesneg, mae'r darlun yn fwy cymhleth. Mae llai na 50% o ddysgwyr blwyddyn 11 yng Nghymru wedi cael eu cofrestru ar gyfer y cymhwyster yr haf hwn. Fodd bynnag, cafodd rhai o'r myfyrwyr hynny nad ydynt wedi cael eu cofrestru'r haf hwn eu cofrestru ar gyfer y cymhwyster ym mlwyddyn 10.

At ei gilydd, bydd tua 70% o'r holl fyfyrwyr blwyddyn 11 yng Nghymru wedi sefyll y cymhwyster TGAU Llenyddiaeth Saesneg (naill ai ym mlwyddyn 10 neu flwyddyn 11). Mae hyn yn ostyngiad o gymharu â 2016, pan sefodd tua 77% o'r holl fyfyrwyr blwyddyn 11 y cymhwyster TGAU Llenyddiaeth Saesneg (naill ai ym mlwyddyn 10 neu flwyddyn 11).

Gall ysgolion benderfynu pryd i gofrestru myfyrwyr ar gyfer arholiadau, ac nid oes strategaeth cofrestriadau 'gywir' ar gyfer pob myfyriwr. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod myfyrwyr wedi astudio cynnwys y cymhwyster er mwyn rhoi'r cyfle gorau iddynt gyflawni eu gradd orau posibl.

Beth mae hyn yn ei olygu i'r canlyniadau yr haf hwn?

Mae'r patrymau cofrestru gwahanol hyn yn debygol o effeithio ar ganlyniadau TGAU Saesneg Iaith a TGAU Llenyddiaeth Saesneg cyffredinol terfynol Cymru yr haf hwn.

Ar gyfer TGAU Llenyddiaeth Saesneg, gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer y myfyrwyr blwyddyn 10 fel cyfran o'r cofrestriadau cyffredinol ar gyfer yr haf. Rydym yn disgwyl y bydd hyn yn golygu y bydd y canlyniadau cyffredinol yr haf hwn yn is nag ar gyfer blynyddoedd blaenorol.

Er mwyn helpu i esbonio sut y bydd canlyniadau eleni yn cymharu â blynyddoedd blaenorol, bydd ein trosolwg o ganlyniadau'r haf yn canolbwyntio ar disgyblion 16 oed, hynny yw, myfyrwyr blwyddyn 11. O ystyried y newidiadau hyn, bydd yn anodd gwneud cymariaethau ystyrlon o flwyddyn i flwyddyn yr haf hwn, ac mae ysgolion yn debygol o weld mwy o amrywiaeth yn eu canlyniadau o flwyddyn i flwyddyn.

O ran TGAU Llenyddiaeth Saesneg, bydd llawer o fyfyrwyr wedi cyflawni eu graddau yn haf 2016 ac ni fyddant yn cael eu cofrestru yr haf hwn; mae natur y garfan wedi newid, a all olygu y bydd canlyniadau'r haf yn wahanol eleni o'u cymharu â'r blynyddoedd blaenorol. Eto, bydd angen cymryd gofal wrth ddehongli a chymharu canlyniadau cyffredinol yr haf.

Bydd ein cymariaethau yn seiliedig ar y canlyniadau gorau a gyflawnwyd gan fyfyrwyr sy'n gorffen blwyddyn 11 yr haf hwn; mae hyn yn golygu os cafodd myfyriwr radd well yn gynharach yn y cwrs, mai dyna'r radd y byddwn yn ei defnyddio ar gyfer cymharu â chanlyniadau blwyddyn 11 o flynyddoedd blaenorol.

Rhagor o wybodaeth:
www.cymwysteraucymru.org
E: ymholiadau@cymwysteraucymru.org
Ff: 0333 077 2701
@cymwysterau_cym